# Camau Gweithredu

| | | | |
|---|---|---|---|
| **Teitl y cyfarfod:** | Is-grŵp Fforwm Rheoli Tir Cymru ar Lygredd Amaethyddol (yr Is-grŵp) | | |
| **Dyddiad y cyfarfod:** | 7 Tachwedd 2018 | Lleoliad: | Swyddfeydd Llywodraeth Cymru<br>Rhodfa Padarn<br>Aberystwyth<br>SY23 3UR |

**Yn bresennol:**

Zoe Henderson (Aelod a Chadeirydd Bwrdd Cyfoeth Naturiol Cymru (CNC))
Dennis Matheson (Cymdeithas y Ffermwyr Tenant)
Eirwen Williams (Menter a Busnes)
Stephen Bradley (Dŵr Cymru)
Creighton Harvey (Ffederasiwn Pysgotwyr Sir Gaerfyrddin)
Bernard Griffiths (Undeb Amaethwyr Cymru)
Rachel Lewis-Davies (NFU Cymru)
Andrew Chambers (Llywodraeth Cymru)
Spencer Conlon (Llywodraeth Cymru)
James Dowling (Llywodraeth Cymru)
Betsan John (Llywodraeth Cymru)
Rob McCall (CNC)
Helen Haider (CNC)
Bob Vaughan (CNC)
Marc Williams (CNC)
Brian Pawson (CNC)
Matt Lowe (CNC)

**Ymddiheuriadau:**

Kirsten Hughes (Hybu Cig Cymru)
Rhianne Jones (Cymdeithas Tir a Busnesau Cefn Gwlad)
Jamie McCoy (AHDB)
Luke Davies (Llywodraeth Cymru)
Meinir Wigley (CNC)
Geraint Weber (CNC)
Jeremy Frost (Llywodraeth Cymru)

| Rhif: | Eitem | Cam gweith redu |
|---|---|---|

### 3. Diweddariad ar Brosiect Ffermydd Llaeth Cyfoeth Naturiol Cymru

Cadarnhaodd Matt Lowe fod yr wyth swyddog amaethyddol newydd bellach wedi cwblhau hyfforddiant mewnol Cyfoeth Naturiol Cymru a hyfforddiant Harper Adams. Mae'r swyddogion newydd wedi cynnal 20 ymweliad â ffermydd yng nghwmni rhywun arall gydag 20 o ymweliadau eraill wedi eu cynllunio. I ddechrau, ymwelir â ffermydd risg isel.

Mae contractau staff wedi cael eu hestyn tan ddiwedd mis Gorffennaf 2019, ac mae'n debyg y bydd tua 500 o ymweliadau â ffermydd llaeth yn cael eu cynnal yn ystod y cyfnod hwn. Mae cyllid ychwanegol yn cael ei geisio er mwyn estyn y prosiect ymhellach.

Bydd y swyddogion newydd yn rhoi cyngor ac arweiniad ar atal llygredd a chydymffurfiaeth, ynghyd â gweithredu'r arferion ffermio gorau. Mae ymweliadau yn canolbwyntio ar ofynion rheoleiddiol ac yn cynnwys nodi didoli dŵr glân a budr, llwytho maethynnau ffosfforws a nitrogen ar y tir, nodi a yw'r ffermwr yn defnyddio map risg ar gyfer taenu slyri, ac asesu a yw'r seilwaith cyfredol ar y fferm yn cydymffurfio â’r Rheoliadau SSAFO (Silwair, Slyri ac Olew Tanwydd Amaethyddol). Bydd cyfuniad o ofynion ac argymhellion yn cael eu nodi yn y rhan fwyaf o adroddiadau fferm. Mae'r gofynion yn cynnwys y camau gweithredu hynny y mae'n rhaid eu cymryd o fewn amserlen benodol. Mae enghreifftiau o argymhellion yn cynnwys gosod cwteri i ddidoli dŵr glân a budr, neu ychwanegu poncen i gadw dŵr budr yn y buarth.

***Pwynt Gweithredu 1 – Dosbarthu adroddiad templed ar gyfer Prosiect Ffermydd Llaeth Cyfoeth Naturiol Cymru (Matt Lowe, Cyfoeth Naturiol Cymru)***

Bydd yr holl adeileddau sy'n ddarostyngedig i Reoliadau SSAFO yn cael eu hasesu a bydd unrhyw ofynion yn cael eu rhestru yn yr adroddiad. Lle nodir diffyg cydymffurfio sy'n peri risg sylweddol o lygredd, bydd Cyfoeth Naturiol Cymru yn mynnu bod y fferm yn dechrau cydymffurfio. Er enghraifft, cyfyngiant clamp silwair diffygiol, storfeydd slyri annigonol, neu adeileddau sydd wedi cael eu hadeiladu / eu cynnal a’u cadw’n wael. Nid yw storfeydd slyri annigonol o reidrwydd yn golygu y bydd angen storfa slyri newydd; caiff ffermwyr leihau cyfaint y slyri sy'n cael ei gynhyrchu drwy ddidoli dŵr glân a budr a thrwy welliannau eraill i'r seilwaith.

Pan fydd angen gwelliannau sylweddol i seilwaith, argymhellir y dylai'r ffermwr gysylltu'n uniongyrchol â Cyswllt Ffermio.

Lle mae adeiledd nad yw'n cydymffurfio'n peri risg sylweddol o lygredd, rhaid rhoi sylw i'r mater hwn a sicrhau bod y fferm yn dechrau cydymffurfio. Bydd angen i Cyfoeth Naturiol Cymru sicrhau bod camau'n cael eu cymryd i sicrhau bod y fferm yn cydymffurfio. Mae'n bosibl y bydd hyn yn cynnwys cyflwyno Hysbysiad SSAFO (yn dilyn cytundeb rhwng Cyfoeth Naturiol Cymru a'r ffermwr ac yn unol ag amserlen resymol) neu gallai fod cytundeb gwirfoddol rhwng Cyfoeth Naturiol Cymru a'r ffermwr.

Yn ystod yr ymweliad â'r fferm, bydd swyddogion Cyfoeth Naturiol Cymru yn gofyn i ffermwyr a oes ganddynt Gynllun Rheoli Gwrtaith a Chynllun Rheoli Maethynnau. Os nad oes gan ffermydd ddigon o dir i daenu'r slyri, bydd y swyddogion yn awgrymu allforio'r slyri oddi ar y fferm, caffael rhagor o dir neu leihau cyfaint y slyri a gynhyrchir (drwy leihau nifer y gwartheg). Cynhelir sgwrs â'r ffermwr cyn i'r adroddiad gael ei gynhyrchu. Tynnwyd sylw at werth cynnal sgwrs arall ar ôl i'r adroddiad gael ei gynhyrchu gan aelodau'r Is-grŵp. Byddai hyn yn helpu i sicrhau bod y ffermwr yn deall yr adroddiad a bod rhagor o ymwybyddiaeth ynghylch risgiau.

***Pwynt Gweithredu 2 – Ystyried a ddylid cynnal ail ymweliad â'r fferm ar ôl i adroddiadau'r Prosiect Ffermydd Llaeth gael eu cynhyrchu (Matt Lowe a Huwel Manley, Cyfoeth Naturiol Cymru)***

Bydd Cyfoeth Naturiol Cymru yn casglu data ar nifer y ffermydd llaeth yr ymwelir â nhw, nifer yr adeileddau nad ydynt yn cydymffurfio, nifer yr achosion o lwytho maethynnau ar y tir, a chyfaint y slyri sy'n cael ei gynhyrchu. Gofynnodd aelodau'r Is-grŵp a fyddai adroddiad am y canfyddiadau'n cael ei gynhyrchu ar ddiwedd mis Gorffennaf 2019 neu ar ddiwedd y prosiect.

***Pwynt Gweithredu 3 – Ystyried a ddylid cynhyrchu adroddiad byr am ganfyddiadau'r Prosiect Ffermydd Llaeth ar ddiwedd mis Gorffennaf 2019 (Matt Lowe a Huwel Manley, Cyfoeth Naturiol Cymru)***

## 4. Diweddariad ar ystadegau llygredd amaethyddol

Dangosodd Marc Williams graff o'r holl achosion o lygredd dŵr a oedd wedi'u cadarnhau ar gyfer 2017 fesul sector. Y tri sector a oedd yn peri'r nifer uchaf o achosion o lygredd oedd y sector domestig a phreswyl, amaethyddiaeth a'r diwydiant dŵr, ond roedd nifer uchel o ddigwyddiadau yn y categori 'math o adeilad heb ei nodi'.

Cafodd graff o'r holl achosion o lygredd dŵr yn ôl math o lygrydd ei ddarparu hefyd. Dŵr halogedig, gwastraff anadweithiol, olew a thanwydd a charthion oedd y llygryddion a oedd yn cael eu nodi amlaf.

Mae angen rhywfaint o waith ychwanegol ar y graff o achosion o lygredd amaethyddol (hyd at 1 Hydref 2018) o ran difrifoldeb y digwyddiadau, sut y maent yn cymharu â sectorau eraill sy'n peri llygredd, ac effeithiau glaw yn y gaeaf ac ati.

Bu rhagor o drafod ynglŷn â phwysigrwydd ac effaith glawiad trwm ar nifer y digwyddiadau.  Cafodd Rheoliadau SSAFO a'r gofyniad cyfatebol ar gyfer storio slyri o bedwar mis eu cyflwyno yn 1991. Mae'n bosibl y bydd yr olaf yn llai perthnasol yng ngoleuni'r ffaith fod rhagor o achosion o law trwm bellach yn digwydd.

Cafodd graff yn dangos ymatebion gorfodi Cyfoeth Naturiol Cymru yn ystod y cyfnod 2016–18 ei ddarparu hefyd. Daeth y wybodaeth o system COLINS Cyfoeth Naturiol Cymru ar gyfer cofnodi toriadau rheoleiddiol. Mae angen trin y golofn ‘cyngor ac arweiniad' yn ofalus gan ei bod yn bosibl nad yw staff Cyfoeth Naturiol Cymru yn cofnodi'r math hwn o ddata ar y system bob tro. Mewn gwirionedd, bydd y rhan fwyaf o'r ffermydd sy'n cael eu harolygu'n derbyn rhywfaint o gyngor gan swyddogion Cyfoeth Naturiol Cymru.  Roedd nifer y llythyrau rhybuddio a gafodd eu cyflwyno gan Cyfoeth Naturiol Cymru yn uwch i lawer. Mae nifer yr erlyniadau yn gymharol fach. Oherwydd yr amserlenni sy'n gysylltiedig â mynd ag achos i'r llys, ni fydd erlyniadau'n cael eu cynnwys yn y set ddata nes y bydd ffeil yr achos wedi cael ei chau.

Trafodwyd manteision cymharu data Cyfoeth Naturiol Cymru ar ddigwyddiadau â'r wybodaeth o leoliadau tebyg yn ne-orllewin neu ogledd-orllewin Lloegr, yn ogystal â'r posibilrwydd o geisio rhagor o gyngor gan staff perthnasol Cyfoeth Naturiol Cymru sydd ag arbenigedd mewn dadansoddi ystadegau.

***Pwynt Gweithredu 4:Paratoi naratif drafft i gyd-fynd â rhyddhau ystadegau ar lygredd amaethyddol / canlyniadau gorfodi yn y dyfodol a rhannu hwn â gweddill yr Is-grŵp (Brian Pawson a Meinir Wigley, Cyfoeth Naturiol Cymru)***

***Pwynt Gweithredu 5:Ymgymryd â'r gwaith o ddehongli data Cyfoeth Naturiol Cymru ar ddigwyddiadau o lygredd amaethyddol – cymharu â sectorau eraill sy'n peri llygredd, difrifoldeb digwyddiadau, effaith glawiad yn y gaeaf ac ati – a cheisio cyngor ar ddadansoddi data pellach (Marc Williams, Cyfoeth Naturiol Cymru)***

***Pwynt Gweithredu 6: Ceisio data tebyg ar achosion o lygredd amaethyddol yn Lloegr a'i ddosbarthu i aelodau'r Is-grŵp (Bob Vaughan, Cyfoeth Naturiol Cymru)***

## 5. Sylw ar lygredd amaethyddol ar y teledu yn ddiweddar

Trafododd y grŵp y sylw diweddar ar raglen S4C Y Byd ar Bedwar. Roedd hyn yn cynnwys cyfweliadau â dau enweiriwr, swyddog Cyfoeth Naturiol Cymru (Huwel Manley), cynrychiolydd o NFU Cymru (Aled Jones), ffermwr arall a Sir Gaerfyrddin, chwythwr chwiban dienw ac Ysgrifennydd y Cabinet. Roedd aelodau'r Is-grŵp yn siomedig nad oedd unrhyw gyfeiriadau at natur gadarnhaol y gwaith sydd bellach yn cael ei gydlynu gan yr Is-grŵp. Yn benodol, roedd y rhaglen yn canolbwyntio ar reoleiddio ac nid oedd yn ystyried y pedwar mesur allweddol arall (mentrau gwirfoddol, arloesedd ac ati) a gafodd ei nodi yn adroddiad interim Fforwm Rheoli Tir Cymru.

Cadarnhaodd swyddogion Llywodraeth Cymru fod Ysgrifennydd y Cabinet yn derbyn diweddariadau rheolaidd ar waith yr Is-grŵp. Fel y nodwyd yn ystod y rhaglen ddiweddar ar S4C, byddai Ysgrifennydd y Cabinet yn gwneud datganiad ar reoleiddio'n fuan iawn.

Trafododd y grŵp fanteision ysgrifennu at Ysgrifennydd y Cabinet ac a fyddai'n adeg dda i gyhoeddi datganiad i'r wasg yn rhoi sylw i'r materion a godwyd yn y rhaglen ar S4C a disgrifio gwaith Is-grŵp Fforwm Rheoli Tir Cymru. Nodwyd ei bod yn debyg y byddai rhaglen Saesneg debyg yn cael ei darlledu'r wythnos nesaf ar HTV.

***Pwynt Gweithredu 7: Paratoi llythyr drafft i gadeirydd Fforwm Rheoli Tir Cymru anfon at Ysgrifennydd y Cabinet, yn tynnu sylw at werth defnyddio Is-grŵp Fforwm Rheoli Tir Cymru fel ffordd o archwilio i natur yr ymyriadau rheoleiddio sydd eu hangen a'r cynnydd sydd wedi cael ei wneud eisoes (Brian Pawson, Cyfoeth Naturiol Cymru)***

***Pwynt Gweithredu 8: Paratoi datganiad i'r wasg drafft ynglŷn â gwaith yr Is-grŵp a'i ddosbarthu i aelodau ar gyfer sylwadau (Brian Pawson a Meinir Wigley, Cyfoeth Naturiol Cymru)***

## 6. Rhaglen Gyflawni Cyswllt Ffermio ar Lygredd Amaethyddol

Cadarnhaodd Eirwen Williams i naw digwyddiad ffermio cynaliadwy gael eu cynnal ledled Cymru yn ystod mis Medi. Cafodd y rhain eu mynychu gan tua 2,000 o ffermwyr. Cynhaliwyd y digwyddiad terfynol wedi'i dargedu (rhif 15) ar 7 Tachwedd yn nalgylch Afon Ddu/Dulas. Bydd Cyswllt Ffermio'n cysylltu â'r ffermwyr a ddaeth i'r digwyddiadau hyn mewn perthynas â'r amrediad o wasanaethau cynghorol sydd ar gael. Mae saith grŵp Agrisgôp bellach wedi cael eu sefydlu o ganlyniad i'r digwyddiadau a gynhaliwyd ar draws y 28 dalgylch wedi'u targedu.

***Pwynt Gweithredu 9: Darparu data ynglŷn â holl ganlyniadau digwyddiadau Cyswllt Ffermio i'w gynnwys yn natganiad i'r wasg Fforwm Rheoli Tir Cymru (Eirwen Williams, Menter a Busnes)***

Cynhaliwyd arolwg o ffermwyr ar ran Menter a Busnes ym mis Awst 2018, gan ddefnyddio cyfweliadau dros y ffôn â thua 10% o'r holl fusnesau fferm cofrestredig.  Gofynnwyd i ffermwyr, *'Ar raddfa 1–6, pa mor bwysig yw ansawdd dŵr?' Rhoddodd rhyw 87% o'r rhai a gyfwelwyd â nhw sgôr o 5 neu 6.*

***Pwynt Gweithredu 10: Cymharu'r data ar ganlyniadau'r arolwg dros y ffôn yn 2018 â'r canlyniadau ar gyfer blynyddoedd blaenorol, i nodi a fu unrhyw newid o ran agweddau ffermwyr at ansawdd dŵr (Eirwen Williams, Menter a Busnes)***

Bu rhywfaint o drafod ynglŷn â sut y dylai rhaglen waith Cyswllt Ffermio fynd rhagddi yn ystod y flwyddyn nesaf ac a ddylai'r ffocws symud i ddalgylchoedd newydd neu barhau ar yr un 28 o gyrff dŵr â blaenoriaeth.  Cytunwyd bod y dalgylchoedd cyfredol yn parhau i fod yn flaenoriaeth uchel, gyda'r angen i wneud rhagor o waith i sicrhau yr ymgysylltir â'r ffermwyr hynny nad ydynt wedi manteisio ar y cyngor a'r arweiniad sydd ar gael hyd yn hyn. Dylid cynnal rhagor o waith i nodi'r math o newidiadau sy'n cael eu gwneud gan y ffermwyr hynny sydd eisoes wedi dechrau ymgysylltu.
*Pwynt Gweithredu 11: Nodi pa ffermwyr na wnaethant gymryd rhan yn nigwyddiadau Cyswllt Ffermio a gynhaliwyd ar ffermydd, fel rhan o'r gwaith o ystyried sut i ennyn diddordeb busnesau o'r fath yn y dyfodol. Ystyried y ffordd orau o nodi ehangder y newidiadau a wnaed gan y ffermwyr hynny a gymerodd ran (Eirwen Williams, Menter a Busnes, a Marc Williams, Cyfoeth Naturiol Cymru)*

Gwnaeth Marc Williams rannu'r map newydd o fentrau dalgylchoedd â'r grŵp. Mae hwn yn dangos lle mae gwaith cynghorol ychwanegol (y tu hwnt i'r gwaith rheolaidd) bellach yn cael ei wneud mewn dalgylchoedd ledled Cymru. Bu rhagor o drafod ynghylch y meini prawf a ddefnyddir i benderfynu ar yr hyn y dylid ei gynnwys yn y map a'r hyn y dylid ei hepgor.  Cadarnhawyd y byddai'r fersiwn derfynol o'r map yn cael ei chyhoeddi ar wefan Arsylwi Dyfroedd Cymru.

***Pwynt Gweithredu 12:Anfon sylwadau pellach ar y map o Fentrau Dalgylchoedd at Marc Williams (Pawb)***

***Pwynt Gweithredu 13: Nodi meysydd posibl o waith ar lygredd amaethyddol y gallai Cyswllt Ffermio roi sylw iddynt yn y dyfodol – i'w trafod yng nghyfarfod nesaf yr Is-grŵp (Pawb)***

## 7. 'Brexit a'n Tir' (Papur Gwyrdd Llywodraeth Cymru)

Diolchodd Zoe Henderson holl aelodau'r Is-grŵp a oedd wedi rhoi mewnbwn i'w llythyr diweddar at Ysgrifennydd y Cabinet mewn perthynas â'r ymgynghoriad ar Brexit a'n Tir.

## 8. Cyfrifianellau storio slyri / defnyddio gwellt ar gyfer deunydd gwely anifeiliaid ar ffermydd llaeth

Trafodwyd y gwahaniaethau rhwng y dulliau amrywiol ar gyfer cyfrifo'r slyri sy'n cael ei storio a ddefnyddir ledled Cymru. Cytunwyd y byddai'n fanteisiol sefydlu gweithgor bach i archwilio i'r mater hwn. Bydd yr aelodau yn dod o Cyfoeth Naturiol Cymru, Llywodraeth Cymru, AHDB Dairy a Cyswllt Ffermio.

*Pwynt Gweithredu 14: Sefydlu gweithgor i edrych ar yr amryw ddulliau ar gyfer cyfrifo'r slyri sy'n cael ei storio a ddefnyddir ledled Cymru ar hyn o bryd (Marc Williams, Cyfoeth Naturiol Cymru)*

*Pwynt Gweithredu 15: Paratoi papur byr yn amlinellu'r dulliau gwahanol ar gyfer cyfrifo'r slyri sy'n cael ei storio a ddefnyddir ar hyn o bryd - a'r cyfleoedd i unrhyw alinio pellach (Cyfoeth Naturiol Cymru / Llywodraeth Cymru / Cyswllt Ffermio / AHDB Dairy)*

Bu trafodaeth fer ynghylch y posibilrwydd o ddefnyddio gwellt a sglodion pren fel deunydd gwely anifeiliaid, ac a fyddai'n ymarferol i ffermydd llaeth gynhyrchu gwrtaith buarth yn hytrach na slyri. Cyfeiriodd Bob Vaughan at y ffaith i brosiect Pontbren gynnal astudiaeth ar ddefnyddio sglodion pren fel deunydd gwely. Dywedodd Rachel Lewis-Davies fod y testun hwn eisoes wedi cael ei drafod gan aelodau o Grŵp Gorchwyl a Gorffen NFU Cymru ar Ansawdd Dŵr.

***Pwynt Gweithredu 16: Dosbarthu gwybodaeth o brosiect Pontbren am ddefnyddio coral sglodion pren fel deunydd gwely ar gyfer anifeiliaid (Bob Vaughan, Cyfoeth Naturiol Cymru)***

*Pwynt Gweithredu 17: Dosbarthu adborth o'r Grŵp Gorchwyl a Gorffen ar Ansawdd Dŵr a oedd yn ystyried defnyddio gwellt fel deunydd gwely anifeiliaid ar ffermydd llaeth (Rachel Lewis-Davies, NFU Cymru)*

***Pwynt Gweithredu 18: Nodi a yw Cyswllt Ffermio wedi cyhoeddi unrhyw arweiniad ynglŷn â defnyddio gwellt/sglodion pren ar ffermydd llaeth, a chynhyrchu gwrtaith buarth yn hytrach na slyri (Eirwen Williams, Menter a Busnes)***

***Pwynt Gweithredu 19: Nodi a yw Hybu Cig Cymru / AHDB Dairy wedi cyhoeddi unrhyw arweiniad ynglŷn â defnyddio gwellt/sglodion pren ar ffermydd cig eidion/llaeth (Brian Pawson, Cyfoeth Naturiol Cymru; Kirsten Hughes, Hybu Cig Cymru; Jamie McCoy, AHDB Dairy)***

## 9. Prosiect Partneriaeth ar Ddull Gwirfoddol ar gyfer Rheoli Maethynnau

Yn flaenorol, gwnaeth NFU Cymru, Undeb Amaethwyr Cymru a Dŵr Cymru sicrhau cymorth gan raglen partneriaeth Cyfoeth Naturiol Cymru er mwyn datblygu'r  Fenter Wirfoddol ar Reoli Maethynnau. Mae Lorna Davies bellach wedi cael ei phenodi fel rheolwr y prosiect a bydd hi'n

dechrau yn y swydd ar ddechrau mis Rhagfyr. Mae gan Lorna brofiad helaeth o fewn y sector dŵr. Mae hi wedi gweithio fel arweinydd grŵp Agrisgôp a newydd gwblhau Ysgoloriaeth Nuffield ar reoli maethynnau.

Ar hyn o bryd, mae Rachel Lewis-Davies yn nodi dyddiadau addas ar gyfer cyfarfodydd y Grŵp Llywio ar Reoli Maethynnau a Grŵp Gorchwyl a Gorffen NFU Cymru.

Cytunwyd y byddai'n ddefnyddiol pe bai Lorna Davies yn cael ei chyflwyno i gynrychiolwyr o amrediad o sefydliadau rhanddeiliaid (yn benodol Cyfoeth Naturiol Cymru a Llywodraeth Cymru) cyn gynted ag y bo modd. Bydd Lorna yn rhoi cyflwyniad byr ar ei rôl yng nghyfarfod nesaf yr Is-grŵp ar 12 Rhagfyr, a chytunwyd y dylai hi hefyd gael ei gwahodd i fynychu holl gyfarfodydd yr Is-grŵp wedyn.

***Pwynt Gweithredu 20: Sicrhau bod Lorna Davies (y Fenter Wirfoddol ar Reoli Maethynnau) yn cael ei gwahodd i holl gyfarfodydd yr Is-grŵp (Marc Williams a Helen Haider, Cyfoeth Naturiol Cymru)***

## 10. Cynllun Gweithredu Is-grŵp Fforwm Rheoli Tir Cymru

Mae'r cynllun gweithredu yn parhau i gael ei ddatblygu. Adborth cyfyngedig yn unig a gafwyd gan aelodau yn dilyn y cyfarfod cynllunio arbennig a gynhaliwyd ar 8 Hydref yn Aberystwyth.

***Pwynt Gweithredu 21: Rhoi adborth ysgrifenedig i Brian Pawson erbyn 16 Tachwedd 2018 ar y pwyntiau gweithredu a godwyd o'r cyfarfod cynllunio arbennig yn Aberystwyth (Pawb)***

Mae Ian Roderick (Sefydliad Schumacher) wedi cysylltu ag amryw aelodau o'r Is-grŵp mewn perthynas â'r prosiect yn edrych ar achosion sylfaenol llygredd amaethyddol.

Mae amryw sylwadau mewn perthynas â'r fanyleb ar gyfer y prosiect Baich Maethynnau ar y Tir wedi cael eu derbyn gan Helen Haider. Bydd y fanyleb sy'n benodol i'r prosiect bellach yn cael ei diwygio cyn i'r gwahoddiad i roi dyfynbris gael ei gyhoeddi.

Mae tendrau ar gyfer y ddau brosiect ar Ffermio Dwys a Thrwyddedu Amgylcheddol bellach wedi cael eu gwahodd.

Bu rhywfaint o drafod ynglŷn â diwygiadau i'r Ddeddf Daliadau Amaethyddol a diwygio tenantiaeth amaethyddol, a sut y gellir gweithredu argymhellion 7.9–7.12 yr adroddiad interim.

***Pwynt Gweithredu 22: Darparu diweddariad ar ddiwygio tenantiaeth amaethyddol i'w ystyried yng nghyfarfod nesaf yr Is-grŵp (Andrew Chambers, Llywodraeth Cymru)***

## 11. Trefniadau ar gyfer cyfarfodydd yr Is-grŵp yn y dyfodol

**12 Rhagfyr (Swyddfeydd Undeb Amaethwyr Cymru, Aberystwyth)**
Siaradwr 1 – Tony Loizou (Ffederasiwn Pysgotwyr Sir Gaerfyrddin);
Siaradwr 2 – Lorna Davies (y Fenter Wirfoddol ar Reoli Maethynnau)

Awgrymwyd y gallai Wrecsam fod yn lleoliad posibl ar gyfer y cyfarfod ym mis Ionawr.

Gallai fod yn bosibl gwahodd cynrychiolydd o Asiantaeth Diogelu Amgylchedd yr Alban (SEPA) i siarad yn y cyfarfod ym mis Chwefror. Bydd angen rhoi amser hefyd i Ian Roderick (Sefydliad Schumacher) ar yr agenda.

***Pwynt Gweithredu 23: Cadarnhau dyddiadau a lleoliadau ar gyfer cyfarfodydd Is-grŵp Fforwm Rheoli Tir Cymru sydd wedi cael eu trefnu yn ystod mis Ionawr i fis Mawrth 2019 (Helen Haider, Cyfoeth Naturiol Cymru)***

***Pwynt Gweithredu 24: Trefnu cyfarfodydd yr Is-grŵp ar gyfer gweddill 2019 (Helen Haider a Marc Williams, Cyfoeth Naturiol Cymru)***

***Pwynt Gweithredu 25: Siarad â Mark Aitken o SEPA ynghylch a yw'n gallu mynychu cyfarfod y Is-grŵp ym mis Chwefror (Brian Pawson, Cyfoeth Naturiol Cymru)***

***Pwynt Gweithredu 26: Anfon agendâu a phwyntiau gweithredu dwyieithog o gyfarfodydd diweddaraf yr Is-grŵp at Bob Vaughan fel eu bod yn gallu cael eu lanlwytho ar wefan Cyfoeth Naturiol Cymru (Helen Haider, Cyfoeth Naturiol Cymru)***

## 12. Cofnodion o'r cyfarfod ar 11 Hydref a'r pwyntiau gweithredu nad ydynt wedi derbyn sylw

Cadarnhwyd and oedd Pwynt Gweithredu 13 o gyfarfod yr Is-grŵp ar 11 Hydref wedi derbyn sylw hyd yn hyn:

*'Drafftio rhai geiriau addas i gynnwys y negeseuon allweddol i ffermwyr fel rhan o'r diweddariad ar SAP (Meinir Wigley, Cyfoeth Naturiol Cymru, ac Andrew Chambers, Llywodraeth Cymru)'*

***Pwynt Gweithredu 27: Dosbarthu drafft diwygiedig o'r negeseuon allweddol ar lygredd amaethyddol i'w cynnwys yn y diweddariad arfaethedig ar SAP.(Andrew Chambers, Llywodraeth Cymru)***

## 13. Diweddariad ar weithgareddau perthnasol yn y dyddiadur

Eglurodd Creighton Harvey fod cyfarfod Ffederasiwn Pysgotwyr Sir Gaerfyrddin, Afonydd Cymru ac Ymddiriedolaeth Afonydd Gorllewin

Cymru â Chyngor Sir Caerfyrddin bellach wedi cael ei ohirio tan y flwyddyn newydd.

Bydd Rachel Lewis-Davies a Helen Haider yn siarad yng nghyfarfod Grŵp Llywio Dyfrdwy yn yr Orsedd ar 13 Tachwedd.

Bydd Dŵr Cymru yn lansio rhaglen ddilynol i raglen PestSmart yn Ffair Aeaf Frenhinol Cymru ar 26 Tachwedd. Mae hon yn fenter sy'n hybu defnyddio, storio a gwaredu plaladdwyr yng Nghymru mewn modd diogel.

---

## 14. Unrhyw fater arall

Mae Rachel Lewis-Davies yn drafftio erthygl ar y Cod Ymarfer Amaethyddol Da i'w chynnwys yng nghylchgrawn NFU Cymru (*Farming Wales / Yr Amaethwr*).

Eglurodd Andrew Chambers y byddai diweddariad ar ganlyniad y cyfnod diweddaraf ar gyfer gwneud cais am Grant Cynhyrchu Cynaliadwy ar gael yn fuan.

***Pwynt Gweithredu 28: Darparu diweddariad ar ganlyniad y cyfnod diweddaraf ar gyfer gwneud cais am Grant Cynhyrchu Cynaliadwy yng nghyfarfod nesaf yr Is-grŵp (Andrew Chambers, Llywodraeth Cymru)***

Mae Creighton Harvey wedi ysgrifennu erthygl ar gyfer *Farming Wales / Yr Amaethwr* yn ddiweddar am bwysigrwydd ansawdd dŵr da wrth geisio cynnal poblogaethau iach o bysgod. Gwnaeth Creighton hefyd dynnu sylw at y broblem o bridd yn llifo o gaeau sofl india-corn yn ne-orllewin Cymru ar y diwrnod cyn Storm Calum. Dangoswyd llun o Sgwâr Glanyfferi wedi'i orchuddio â phridd.